Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Cronfa Mentrau Sir Gaerfyrddin

## Canllawiau i Ymgeiswyr



**Cymorth grant i gefnogi mentrau sector preifat a thrydydd sector i ddatblygu safleoedd busnes newydd a phresennol yn Sir Gaerfyrddin.**

**Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin - Canllawiau Grant**

**Tabl Cynnwys**


1. **Cyflwyniad**
2. **Ardaloedd Cymwys/Ceisiadau**
3. **Gwaith Anghymwys**
4. **Lefelau'r Grant**
5. **Proses Gwneud Cais**
6. **Diffiniadau**
7. **Meini Prawf Asesu**
8. **Y Grant**
9. **Gweithredu'r Contract Ffioedd Proffesiynol**
10. **Cais am Grant**
11. **Y Gofrestrfa Tir**
12. **Caffael**
13. **Osgoi Gwrthdaro Buddiannau**
14. **Caniatadau Statudol**
15. **Yswiriant**
16. **Atgyweirio a Chyflwr**
17. **Ad-dalu'r Grant**
18. **Gwaredu Asedau**
19. **Monitro**
20. **Materion Eraill yn Ymwneud â'r Cais am y Grant**
21. **Asbestos**
22. **Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)**
23. **Rheolau Rheoli Cymorthdaliadau**
24. **Manylion Cyswllt**
25. **Cyflwyno Ceisiadau**

**Atodiad 1 - Rheolau ynghylch Caffael Grant gan Drydydd Partïon**
**Atodiad 2 - Safonau’r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)**

**Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin - Canllawiau Grant**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor Sir) wedi sicrhau bod cyllid ar gael i ddarparu cymorth grant i brosiectau cyfalaf ar gyfer mentrau gwledig y sir. Bydd y Grant yn darparu cymorth i fentrau ac unig fasnachwyr ar gyfer datblygu safleoedd busnes newydd a phresennol, lle y mae swyddi newydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r prosiect.

1.2 Mae gan y rhaglen gyllideb benodedig ac, o ganlyniad, cynigir bod y cynllun yn seiliedig ar egwyddor “her”. Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau a fydd yn cynnig manteision pendant i'r economi leol o ran nifer ac ansawdd y swyddi uniongyrchol a grëir mewn sectorau allweddol.

1.3 Mi fydd unrhyw gyllid yn cael ei wobrwyo o dan y cymhorthdal - Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA). Mae cymorth ariannol lleiaf (MFA) yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus ddyfarnu cymorthdaliadau hyd at £315,000 heb angen cydymffurfio â’r mwyafrif o'r gofynion rheoli cymorthdaliadau. Nid oes angen asesu MFA yn erbyn yr egwyddorion rheoli cymorthdaliadau na’r egwyddorion ynni a'r amgylchedd. Mae rheolau tryloywder yn berthnasol i gymorthdaliadau MFA gwerth dros £100,000.
Mae'r gwaharddiadau canlynol yn parhau mewn grym gyfer pob dyfarniad MFA:

- ar ddyfarnu cymorthdaliadau sy'n ymwneud â nwyddau ar gyfer perfformiad allforio
- ar gynnwys domestig.

## 2. Ardaloedd Cymwys / Ceisiadau

2.1 Mae’r cyllid yma yn gymwys yw’r ddefnyddio i fusnesau sydd wedi eu lleoli o fewn Sir Gaerfyrddin.

2.2 Rhaid i'r holl ymgeiswyr fod yn hyfyw yn economaidd ac yn ariannol.

2.3 Bydd grantiau ar gyfer gwaith ar eiddo ar gael i berchnogion y buddiant rhydd-ddaliad yn yr eiddo neu i lesddeiliaid sy'n dal prydles **ag o leiaf saith mlynedd yn weddill ar yr amser a ragwelir ar gyfer taliad terfynol y grant.**

Bydd yn rhaid i lesddeiliaid gael caniatâd ysgrifenedig gan eu landlord ar gyfer y gwaith arfaethedig.

2.4 Os nad yw’r brydles yn enw’r cwmni cyfredol sydd yn ymgeisio am y grant hwn, yna fe fydd yn rhaid creu prydles newydd gyda’r sawl sydd a pherchnogaeth dros yr eiddo. Nid oes eithriad yma hyd yn oed os mae yr un person yw perchennog yr eiddo.

## 3. Gwaith Anghymwys

Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Gwaith adnewyddu lle na fydd defnydd adeilad yn cael ei newid.
- Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw arferol.
- Gwaith yn ymwneud â gofynion iechyd a diogelwch/rheoliadau statudol.
- Caffael eiddo.
- Tirlunio meddal.
- Gwaith sydd eisoes wedi dechrau.
- Prynu Offer

**Ni all y cyllid yma gael ei ddefnyddio ar gyfer y canlynol:**

- Deunydd gwleidyddol
- I hybu unrhyw safbwyntiau\ credoau crefyddol, seciwlar a gwleidyddol
- Gamblo
- Pornograffi
- I gynnig unrhyw wasanaethau rhywiol
- Unrhyw weithgaredd anghyfreithlon, neu\a unrhyw weithgaredd y byddai’r cyngor yn rhagweld y byddai’n codi gwarth ar yr awdurdod neu\a Llywodraeth y DU.

**4. Lefelau'r Grant**

Bydd y grant naill ai’n seiliedig ar £30,000 fesul swydd a grëwyd neu hyd at y cyfraddau ymyrraeth canlynol, beth bynnag yw’r ffigur lleiaf:-

| **Trothwy** | **Maint y Cwmni** |
|---|---|
| 50% | I bob Busnes |

**Ni ellir cael arian cyfatebol ar gyfer y grant hwn drwy gyllid cyhoeddus arall.**

**Uchafswm y grant yw £240,000.**

**5. Proses Gwneud Cais**

Bydd y weithdrefn yn cynnwys proses ymgeisio dau gam.

5.1 Rhaid cyflwyno ffurflen gais ar gyfer rhan 1. Mae modd ichi ofyn am ffurflen gais drwy ddanfon e-bost at Economicdevelopment@sirgar.gov.uk. Bydd gofyn ichi gyflwyno’r dogfennau canlynol gyda’r ffurflen gais:-

- Brasluniau a ffotograffau o'r cynigion/adeiladau presennol

Byddwn wedyn yn adolygu eich cyflwyniad a byddwch yn cael gwybod a ydych wedi llwyddo i gael eich gwahodd i'r cam cais llawn.

5.2 Bydd y panel grantiau wedyn yn asesu ac yn ystyried pob cais yn ystod y cam ac yn rhoi gwybod i ymgeiswyr a ydynt wedi bod yn llwyddiannus yng ngham 1 ai peidio.

5.3 Os yw'r cais yn llwyddiannus, gofynnir i'r ymgeisydd gyflwyno cais manylach o **fewn 9 mis** ar gyfer Cam 2 ynghyd â:-

- Darn maint A4 neu ran o fap OS o raddfa ddigonol i nodi'n glir union leoliad yr eiddo dan sylw.
- Efallai y bydd angen rhestr ynghylch y cyflwr presennol/arolwg strwythurol o'r eiddo a baratowyd gan syrfëwr neu bensaer sydd â chymwysterau proffesiynol, yn dibynnu ar natur y prosiect.
- Darluniau graddedig sy'n dangos yr adeilad presennol a'r gwaith arfaethedig ynghyd â manyleb fanwl o'r gwaith. Dylai'r rhain gael eu paratoi gan bensaer / syrfëwr meintiau sydd â chymwysterau proffesiynol addas.
- Lle bo'n berthnasol, copïau o'r holl ganiatadau statudol perthnasol.
- Datganiad sy'n dangos cyfran y ffioedd a briodolir i'r gwaith ac enw a chymwysterau unrhyw ymgynghorydd proffesiynol a gyflogir gan yr ymgeisydd.
- Rhaglen waith a'r costau a ragwelir.
- Cyfrifon diweddaraf neu yn achos busnes newydd, rhagolwg o incwm a gwariant ar gyfer y 12 mis nesaf.
- Prawf o berchnogaeth tir neu gopi o brydles ynghyd â chaniatâd tirfeddiannwr.
- Prawf o arian cyfatebol.
- Cynllun busnes manwl yn dangos yn glir sut y bydd y prosiect yn mynd rhagddo, i gynnwys amcanestyniadau llif arian 3 blynedd. Efallai y bydd cymorth ar gael gyda hyn, cysylltwch â Busnes Cymru Cael Cymorth | Busnes Cymru (llyw.cymru)
- Disgrifiadau swydd manwl ar gyfer pob swydd a fydd yn cael ei chreu o ganlyniad i'r grant hwn.
- Dyfynbrisiau / tendrau gan weithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau addas ar gyfer dylunio, goruchwylio ac ardystio gwaith arfaethedig.
- Dyfynbrisiau / tendrau ar gyfer gwaith adeiladu.
- Adroddiad tendr gan Syrfëwr Meintiau yr ymgeiswyr.

5.4 Bydd y panel grantiau ac Aelod o Gabinet y Cyngor yn asesu ac yn ystyried y ceisiadau unigol yn ystod Cam 2. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am y penderfyniad. **Ni fydd unrhyw apeliadau yn cael eu hystyried.**

5.5 Os bydd yr ymgeisydd yn llwyddiannus, bydd yn cael llythyr cynnig ffurfiol wedi'i ddyblygu â thelerau ac amodau. Mae'n rhaid iddo lofnodi'r ddau gopi a dychwelyd un copi ynghyd â rhestr o'r gwaith a rhagolwg grant tynnu i lawr.

5.6 I hawlio taliad grant dros dro, mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus lenwi, llofnodi (ymgeisydd yn unig) a dychwelyd ffurflen hawlio dros dro ynghyd â thystysgrif prisiad dros dro pensaer, anfoneb gan y contractwr a phrawf o daliad.

5.7 I hawlio taliad grant terfynol, mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus lenwi, llofnodi (ymgeisydd yn unig) a dychwelyd ffurflen hawlio derfynol ynghyd â thystysgrif cwblhau ymarferol pensaer, holl anfonebau gwreiddiol y prosiect a phrawf o daliad. Os yw'r gwariant ar waith cymwys yn is na'r hyn a ragwelwyd yn y cynnig grant, bydd y grant yn cael ei leihau ar sail pro rata.

## 6. Diffiniadau

**Menter** - unrhyw endid sy'n ymwneud â gweithgarwch economaidd, beth bynnag fo'i ffurf gyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys pobl hunangyflogedig a phartneriaethau, Cwmnïau Cyfyngedig neu gymdeithasau sy'n ymwneud yn rheolaidd â gweithgarwch economaidd.

**Swydd uniongyrchol** - Swydd CALL barhaol (30awr+) y gellir ei chyfrif a'i monitro fel rhan o'r prosiect e.e. un sy'n cael ei chreu o ganlyniad i gymorth i'r busnes hwnnw

## 7. Meini Prawf Asesu

Dylai ymgeiswyr nodi y bydd y Cyngor Sir yn asesu'r prosiect yn erbyn meini prawf amrywiol:-

- Nifer a safon y swyddi cyfwerth ag amser llawn a grëwyd.
- Nifer yr adeiladau / arwynebedd llawr a wellir / a ddatblygir.
- Gwerth am arian – yn seiliedig ar ganran y grant y gofynnwyd amdano mewn perthynas â manteision economaidd.
- Effaith ar yr Iaith Gymraeg
- Effaith ar Amcanion Strategaeth Dinas-ranbarth Abertawe
- Cyswllt â Chynllun Adfer Economaidd Sir Gaerfyrddin

## 8. Y Grant

8.1 Gellir cynnig y grant dim ond yn yr achosion hynny lle mae'r Cyngor yn fodlon na fydd y prosiect yn mynd rhagddo heb gymorth o'r fath, naill ai ar y raddfa a ragwelir neu o fewn cyfnod rhesymol.

8.2 Bydd swm y grant a gynigir i bob prosiect yn cael ei bennu gan y Cyngor Sir a bydd yn seiliedig ar gost dendro isaf y gwaith a gymeradwywyd yr ystyrir ei fod yn gymwys i gael cymorth grant.

8.3 Swm y grant a bennir yn y llythyr cynnig grant yw uchafswm cyfraniad y Cyngor Sir tuag at y prosiect. Os bydd unrhyw ostyngiadau yng nghost y gwaith a gymeradwywyd, bydd y Cyngor Sir yn gwneud gostyngiad pro-rata i swm y grant a gynigiwyd yn wreiddiol.

8.4 Fel arfer, dyfernir grantiau heb gynnwys TAW. Os na all yr ymgeisydd adennill TAW, gellir derbyn hyn fel cost gymwys yn ôl disgresiwn y Cyngor Sir, yn amodol ar i'r ymgeisydd ymrwymo i ad-dalu i'r Cyngor Sir unrhyw elfen TAW a gaiff ei hadennill yn ddiweddarach oddi wrth Dollau Tramor a Chartref EM o ganlyniad i newid yn statws TAW yr ymgeisydd.

## 9. Gweithredu'r Contract Ffioedd Proffesiynol

9.1 Rhaid i dderbynwyr grantiau ddefnyddio swyddogion proffesiynol sy'n meddu ar y cymwysterau priodol er mwyn asesu tendrau, goruchwylio gwaith prosiect a darparu tystysgrifau ar gyfer gwaith wedi'i gwblhau. Gellir cynnwys y gost hon yn y gwariant cymwys ar gyfer cymorth grant hyd at derfyn o 15% o gyfanswm y gost adeiladu ar yr amod y rhoddwyd cyfrif amdano ar y ffurflen gais a cheisiwyd cytundeb ysgrifenedig penodol y Cyngor Sir cyn penodi ymgynghorwyr. **Rhaid i'r ymgynghorydd proffesiynol feddu ar gymhwyster sy'n briodol i natur y gwaith arfaethedig.**

9.2 Dylai ymgeiswyr ddarparu dyfynbrisiau/tendrau (yn unol â chanllawiau caffael fel y nodir yn adran 12 isod) gan weithwyr proffesiynol cymwys addas ar gyfer dylunio, goruchwylio ac ardystio gwaith arfaethedig.

## 10. Cais am grant

Wrth wneud cais am grant, bydd yr ymgeisydd yn gwarantu i'r Cyngor Sir bod yr holl wybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â'r ddwy ffurflen gais yn gywir ac yn parhau felly ac yn gywir ym mhob ffordd a bod unrhyw amcangyfrifon ac allbynnau a ragwelir neu ffeithiau eraill wedi'u gwneud ar ôl gwaith ymchwilio dyledus a gofalus. Ystyrir y bydd y warant hon yn cael ei rhoi eto pan fydd yr ymgeisydd yn cyflwyno'r ffurflen hawlio grant. **Noder bod rhaid i'r ymgeisydd lofnodi'r ffurflen gais ac ni chaiff unrhyw asiant a benodir i weithredu ar ran yr ymgeisydd ei llofnodi.**

## 11. Y Gofrestrfa Tir

Bydd angen gosod cyfyngiad ar y gweithredoedd eiddo a'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir am o leiaf 7 mlynedd o ddyddiad y taliad grant olaf. Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am drefnu hyn ac unrhyw gostau cysylltiedig. **Hoffem nodi na fydd unrhyw gyllid yn cael ei rhyddhau tan bod y manylion wedi eu cofrestru yn swyddogol gan gofrestrfa'r tir.** Ar ôl y cyfnod hwn bydd yr ymgeisydd hefyd yn gyfrifol am fynd ar drywydd ei ddileu ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r broses hon.

**12. Caffael**

Wrth brynu neu dalu am wasanaeth, dylai ymgeiswyr anelu at gael gwerth am arian gan gynnig cyfle i amrywiaeth o fusnesau ddarparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau hynny mewn modd teg a thryloyw.

Felly rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y gweithdrefnau caffael canlynol yn cael eu mabwysiadu yn unol â gwerth amcangyfrifedig (heb gynnwys TAW) y contract ar y cam dyfynbris/cyn tendro. Rhaid i'ch penderfyniad ddangos y gwerth gorau a rhaid i chi gadw cofnodion sy'n cefnogi eich penderfyniad.

Bydd methu â chydymffurfio'n llawn â'r trothwyon caffael yn golygu nad yw'r costau'n gymwys i gael cymorth o dan y gronfa hon.

**Gweler Atodiad 1 i weld y rheolau**

**13. Osgoi gwrthdaro buddiannau**

Efallai fod ymgeiswyr y prosiect, neu unigolion sy’n gysylltiedig â nhw (megis perthnasau, partneriaid busnes neu gyfeillion), yn dymuno tendro am gontract sy’n cael ei gynnig gan yr ymgeisydd**. Nid yw hyn yn annerbyniol**, ond bydd angen i'r ymgeisydd sicrhau ei fod yn cynnal trafodaethau mor agored ac mor dryloyw â phosibl. Os oes gan yr ymgeisydd, neu unrhyw unigolyn sy’n gysylltiedig ag ef, fudd mewn unrhyw gynnig am gontract a gynigir:-

- mae'n ofynnol i'r ymgeisydd ddatgan unrhyw fuddiant cyn cyhoeddi dogfennau tendro;
- darperir rhestr o dendrwyr arfaethedig i Gyngor Sir Caerfyrddin ei hystyried cyn cyhoeddi dogfennau tendro;
- dylid dychwelyd tendrau yn uniongyrchol i Gyngor Sir Caerfyrddin
- ni ddylai'r ymgeisydd fod yn rhan o ddyfarnu, agor na chofnodi'r tendrau hynny.
- Dylai'r broses gael ei rheoli gan bensaer neu syrfëwr meintiau ar ran yr ymgeisydd.
- dylai'r ymgeisydd ystyried sut y dylid cymhwyso ei ganllawiau caffael i sicrhau nid yn unig bod y weithdrefn yn deg i bob ymgeisydd ond y gellir ei gweld felly hefyd;
- dylid cofnodi pob cam yn y weithdrefn yn ffurfiol a chadw'r cofnodion ar ffeil a'u darparu i'w harchwilio.

**14. Caniatadau Statudol**

**Ni ddylid cyflwyno ceisiadau Cam 2 hyd nes y gwnaed cais am yr holl ganiatadau statudol gofynnol (e.e. Caniatâd Cynllunio, Caniatâd Adeilad Rhestredig, Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu)**. Gellir ystyried prosiect heb ganiatâd cymeradwy llawn yng Ngham 2 y broses ymgeisio yn amodol ar statws a bydd unrhyw ddyfarniad grant yn amodol ar sicrhau'r caniatâd gofynnol.

## 15. Yswiriant

Am gyfnod o bum mlynedd o ddyddiad dyfarnu'r grant, rhaid i'r ymgeisydd yswirio'r eiddo'n gynhwysfawr gyda chwmni yswiriant ag enw da ac, os gofynnir iddo wneud hynny, rhoi tystiolaeth o yswiriant o'r fath i'r Cyngor Sir.

## 16. Atgyweirio a chyflwr

Am gyfnod o 5 mlynedd o ddyddiad derbyn y taliad grant, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gadw'r eiddo mewn cyflwr da.

## 17. Ad-dalu'r grant

Bydd y cyllid yn cael ei gadw'n ôl a/neu, o ran taliad sydd wedi cael ei wneud, bydd y derbynnydd yn ad-dalu'r cyllid naill ai'n llawn neu'n rhannol, gan gynnwys:

- Mae gwiriad domestig gan yr Awdurdod, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw rai o'u cynrychiolwyr, yn nodi amgylchiadau lle bo ad-daliad llawn neu rannol yn ddyledus, neu, os yw'r Awdurdod yn gofyn am i'r cyllid gael ei atal, ei leihau, ei ganslo neu ei adennill;
- mae gormod o gyllid wedi'i dalu;
- os canfyddir bod yr ymgeisydd wedi camliwio mewn perthynas â'r cais;
- os yw'r ymgeisydd wedi torri telerau ac amodau'r grant;
- os na chaiff yr eiddo ei adfer yn llawn o fewn 12 mis yn achos unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at golled neu ddifrod i'r eiddo;
- yn ystod ei oes economaidd, bod y prosiect yn newid yn sylweddol a'i fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion gwahanol i'r rheiny a nodwyd yn y cais, neu, bod y perchennog yn newid ac nad yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei hysbysu am hynny. Yr oes economaidd yw cyfnod taliad olaf y grant.

## 18. Gwaredu asedau

18.1 Mae'n rhaid i'r ymgeisydd sicrhau caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor Sir ynghylch gwaredu unrhyw eiddo o fewn 5 mlynedd o ddyddiad y taliad grant terfynol.

18.2 Bydd y Cyngor Sir yn ceisio cofrestru buddiant yn yr eiddo y derbyniwyd grant ar ei gyfer gyda'r Gofrestrfa Tir, naill ai drwy osod cyfyngiad neu arwystl cyfreithiol ar yr eiddo. Yn achos tir heb ei gofrestru lle nad oes opsiwn i osod cyfyngiad, mae'n bosibl y bydd angen arwystl cyfreithiol ar bob achlysur. Drwy'r broses hon, bydd y Cyngor Sir yn cael gwybod am unrhyw newid ym mherchnogaeth neu les yr eiddo. Bydd y Cyngor yn dymuno sicrhau na cheir unrhyw newid i'r gwaith y derbyniwyd cymorth grant ar ei gyfer, ac ni fydd yn dal unrhyw ganiatâd yn ôl yn afresymol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn gofyn i'r grant gael ei ad-dalu'n rhannol neu yn ei gyfanrwydd.

Ni fydd y Cyngor yn atal caniatâd o'r fath yn afresymol ond gall ei gwneud yn ofynnol i'r grant gael ei ad-dalu'n rhannol yn unol â'r canlynol:

| Dyddiad gwaredu'r ased(au) | Y swm sydd i'w ad-dalu |
|---|---|
| O fewn 1 flwyddyn | Cyllid i'w ad-dalu'n llawn |
| O fewn 2 flynedd | Ad-dalu 80% o'r cyllid |
| O fewn 3 blynedd | Ad-dalu 60% o'r cyllid |
| O fewn 4 blynedd | Ad-dalu 40% o'r cyllid |
| O fewn 5 mlynedd | Ad-dalu 20% o'r cyllid |
| Ar ôl 5 mlynedd | Dim cyllid i'w ad-dalu |

Yr uchod yw'r isafswm y mae'n rhaid ei ad-dalu.

**19. Monitro**

19.1 Rhaid i'r ymgeisydd gadw unrhyw anfoneb wreiddiol, cyfrif neu ddogfen arall (gan gynnwys rhifau cyfresol nwyddau a brynir) sy'n ymwneud â'ch prosiect cymeradwy am ddeng mlynedd o ddyddiad y taliad grant terfynol.

19.2 Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin yr hawl i archwilio gweithgareddau'r grant ar brosiectau cymeradwy ar bob lefel o ddarpariaeth, ar sail samplu briodol a byddant, cyn belled ag y bo modd, yn cael eu cynnal cyn i'r taliad terfynol gael ei wneud ar gyfer y y prosiect ond gall digwydd ar ôl cwblhau'r prosiect.

19.3 Ar ôl rhoi hysbysiad rhesymol, mae'r Cyngor Sir yn cadw'r hawl i archwilio'r eiddo/gwaith neu'r prosiect cymeradwy ar unrhyw adeg rhwng derbyn cais am grant ac o fewn 5 mlynedd o ddyddiad y taliad grant terfynol. Caiff y Cyngor Sir benodi unrhyw weithwyr proffesiynol y gwêl yn dda i gynnal arolygiad o'r fath ar ei ran.

19.4 Dyfernir y gronfa grant hon o dan Reolau Rheoli Cymorthdaliadau y DU, ac felly mae'r Cyngor Sir yn gofyn ichi roi gwybod i ni am unrhyw arian cyhoeddus yr ydych wedi'i dderbyn dros unrhyw gyfnod o 3 blynedd ariannol yn olynol yn union cyn eich cais.

**20. Materion eraill yn ymwneud â'r cais am grant**

20.1 **Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)**

Mae Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg gosod gofyniad statudol ar y Cyngor i sicrhau bod y grantiau a ddyfernir ganddo yn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

Mantais busnes i ddefnyddio'r Gymraeg (llyw.cymru)

Mae rhai enghreifftiau o'r ddarpariaeth yn unol â'r Safonau i'w gweld yn Atodiad 2.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr nodi eu hymrwymiadau i'r Gymraeg wrth iddynt ateb y cwestiynau am y Gymraeg ar y ffurflen gais ac, wedi iddynt gael eu cytuno

gyda'r swyddog grant, fe fyddant yn cael eu gosod fel amodau a thelerau i'r ymgeisydd llwyddiannus.

20.2 Nodwch y bydd yn rhaid ichi gydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a'r Rheoliadau Adeiladu, Dylunio a Rheoli.

**21. Asbestos**

21.1 Os canfyddir asbestos yn yr adeilad, sy'n destun grant ac mae'n amlwg ar y dechrau, efallai y bydd yn bosibl i'r ymgeisydd gynnwys y costau hyn o fewn cost gyffredinol y prosiect. Os mai dim ond ar ôl dyfarniad grant y nodir hyn, cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'i symud a'i waredu'n ddiogel o'r safle.

**22. Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)**

22.1 Os hoffech wybod rhagor am sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth, ffoniwch Hawys Barrett ar 07815591440 i gael copi o'n Hysbysiad Preifatrwydd, neu ewch i'n gwefan www.sirgar.llyw.cymru

**23. Rheolau Rheoli Cymorthdaliadau**

23.1 Mae cymorth ariannol lleiaf (MFA) yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus ddyfarnu cymorthdaliadau hyd at £315,000 heb angen cydymffurfio â'r mwyafrif o'r gofynion rheoli cymorthdaliadau. Nid oes angen asesu MFA yn erbyn yr egwyddorion rheoli cymorthdaliadau na'r egwyddorion ynni a'r amgylchedd. Mae rheolau tryloywder yn berthnasol i gymorthdaliadau MFA gwerth dros £100,000.

Mae'r gwaharddiadau canlynol yn parhau mewn grym gyfer pob dyfarniad MFA:

- ar ddyfarnu cymorthdaliadau sy'n ymwneud â nwyddau ar gyfer perfformiad allforio
- ar gynnwys domestig.

**24. Manylion Cyswllt**

24.1 I gael rhagor o fanylion am y cynllun grant, ffoniwch 07815591440

**25. Cyflwyno ceisiadau**

25.1 Dylai ymgeiswyr anfon eu ceisiadau i'r cyfeiriad canlynol:-

EconomicDevelopment@Sirgar.gov.uk

**ATODIAD 1**

| Rheolau ynghylch Caffael Grantiau gan Drydydd Parti 2025: | | |
|---|---|---|
| **Gofyniad** | **Gwerth**<br>**Mae'r holl werthoedd i'w dehongli fel rhai sy'n cynnwys TAW.** | **Y Broses Gaffael** |
| **Pob Un** | **£0 - £9,999** | • Mae'n rhaid cael a chadw o leiaf 1 **Dyfynbris ysgrifenedig**, a'i gyflwyno i'r swyddogion prosiect.<br>• Mae'n rhaid cael y gwerth gorau am arian ac mae'n rhaid cymryd gofal rhesymol i gael nwyddau, gwaith neu wasanaethau o ansawdd digonol am bris cystadleuol. Mae'n rhaid cadw cofnod dogfennol i gefnogi'r penderfyniad at ddibenion archwilio<br>• Sylwch **nad** yw'r anfoneb am nwyddau/gwasanaethau/gwaith a dderbyniwyd **yn dderbyniol** a bod angen darparu **dyfynbris** gan y cyflenwr i ddangos bod yr ymgeisydd wedi sicrhau gwerth am arian.<br>• Lle mae nwyddau traul yn cael eu caffael o dan £500, gellir ystyried hyn fel eithriad i'r rheolau hyn, ac ni fydd angen cael dyfynbris ar gyfer yr eitem hon/eitemau hyn. Sylwch fod yn rhaid i chi gyflwyno cais ysgrifenedig i'ch rheolwr prosiect cyn prynu'r nwyddau er mwyn i hyn gael ei gymeradwyo. |
| **Pob Un** | **£10,000 a £74,999** | • Mae'n ***rhaid*** ceisio o leiaf **3 Dyfynbris ysgrifenedig** o ffynonellau cystadleuol.<br>• Mae'n rhaid i'r dyfynbrisiau fod yn seiliedig ar yr un fanyleb, ac mae'n rhaid rhoi dyddiad cau ar gyfer |

| | | |
|---|---|---|
| | | dychwelyd y dyfynbris. Mae'n rhaid gwerthuso'r holl ddyfynbrisiau ar sail 'tebyg am debyg'.<br><br>• Mae'n rhaid cadw cofnod dogfennol o'r dyfynbrisiau a geisiwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu at ddibenion archwilio.<br><br>Os mai dim ond un tendr sy'n dod i law, mae'n **rhaid** i chi gysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd gennych.  Bydd yn rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fesul achos. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un dyfynbris, efallai y bydd yn ofynnol hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru. |
| | | |
| **Nwyddau a Gwasanaethau** | **£75,000 a £214,904**[1] | • Mae'n rhaid ceisio o leiaf **4 tendr** o ffynonellau cystadleuol, gydag **isafswm o 2 dendr yn dod i law.**<br><br>• Mae'n rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro: yr un fanyleb o'r gofynion, amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth werthuso'r tendr a'r un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn tendrau ar ôl hynny.<br><br>• Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gyd-fynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol ac mae'n rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i werthuso tendrau.<br><br>Os mai dim ond un tendr sy'n dod i law, mae'n **rhaid** i chi gysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei |

[1] **Mae trothwyon caffael cyhoeddus y DU yn cael eu diweddaru bob dwy flynedd, ac mae newidiadau fel arfer yn dod i rym ar 1 Ionawr yn y flwyddyn ddiweddaru (fe'u diweddarwyd ddiwethaf ar 1 Ionawr 2024).**

| | | |
|---|---|---|
| | | gymeradwyo gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fesul achos. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, efallai y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru. |
| **Gwaith** | **£75,000 a £5,372,609**[2] | • Mae'n rhaid ceisio o leiaf **4 tendr** o ffynonellau cystadleuol, gydag **isafswm o 3 thendr yn dod i law**<br><br>• Mae'n rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro: yr un fanyleb o'r gofynion, amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth ddyfarnu'r contract a'r un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn ceisiadau ar ôl hynny.<br><br>• Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gyd-fynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol ac mae'n rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i werthuso tendrau.<br><br>• Sylwch, ar gyfer cynlluniau grant penodol sy'n ymwneud â phrosiectau gwaith cyfalaf, mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau'r corff cyllido gan ei bod yn bosibl y bydd gofynion a phrosesau penodol y mae'n rhaid eu dilyn. **Gwnewch yn siŵr eich bod wedi trafod hyn gyda'ch Rheolwr/Swyddog Prosiect.**<br><br>Os mai dim ond un **neu** ddau dendr sy'n dod i law, mae'n **rhaid** i chi gysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd gennych. Bydd yn rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fesul achos. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru. |

[2] **Mae trothwyon caffael cyhoeddus y DU yn cael eu diweddaru bob dwy flynedd, ac mae newidiadau fel arfer yn dod i rym ar 1 Ionawr yn y flwyddyn ddiweddaru (fe'u diweddarwyd ddiwethaf ar 1 Ionawr 2024).**

| | | |
|---|---|---|
| | | **Yn achos contractau gwaith sy'n werth mwy na £250k:**<br>• Mae'n rhaid, o leiaf, gynnal diwydrwydd dyladwy, megis gwiriadau Tŷ'r Cwmnïau, gwiriadau rhif TAW, gwiriadau gwefan ac ati, yn ogystal â gwiriadau ariannol ynghylch y contractwr a ffefrir yn dilyn y broses werthuso a chyn dyfarnu'r contract. |
| | | |
| **Nwyddau a Gwasanaethau** | **Mwy na £214,904** | Os yw contract am Nwyddau neu Wasanaethau yn debygol o fod **yn fwy na £214,904 (gan gynnwys TAW)** mae'n rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â'r rheolwr prosiect i gael gwybod a fydd Deddf Caffael 2023 yn berthnasol i'r contract. |
| **Gwaith** | **Mwy na £5,372,609** | Os yw contract am waith yn debygol o fod **yn fwy na £5,372,609 (gan gynnwys TAW)** mae'n rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â'r rheolwr prosiect i gael gwybod a fydd Deddf Caffael 2023 yn berthnasol i'r contract. |
| **Gofynnir i ymgeiswyr 'Meddwl Sir Gâr yn Gyntaf' wrth geisio dyfynbrisiau ar gyfer prynu Nwyddau/Gwasanaethau a Gwaith. Felly, edrychwch ar y farchnad i weld a oes unrhyw fusnesau yn Sir Gaerfyrddin a all ddarparu'r nwyddau / gwasanaeth neu'r gwaith yr ydych yn ceisio eu prynu. Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi ceisio dyfynbrisiau o'r fath.** | | |
| **Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau wedi'u nodi fel rhai arbenigol, a/neu lle mai dim ond un cwmni penodol sy'n addas ar gyfer y fanyleb a ddarperir, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno cais ysgrifenedig i'r rheolwr prosiect cyn prynu i ofyn am hepgor y gofynion ar gyfer cystadleuaeth.** | | |
| **Cynghorir pob ymgeisydd i ddarllen y canllawiau ynghlwm.**<br>**Mae terminoleg a diffiniadau yn cael eu hesbonio isod.** | | |

**Canllawiau Pwysig**

**Hysbysebu trwy GwerthwchiGymru**

Os ydych mewn sefyllfa lle rydych yn ei chael hi'n anodd nodi'r nifer lleiaf o gyflenwyr sydd eu hangen a/neu os hoffech amrywio neu ddenu cyflenwyr newydd i gyflwyno dyfynbris neu dendr, mae'n bosibl i chi hysbysebu ar y wefan Gaffael Genedlaethol, sef

www.GwerthwchiGymru.co.uk. Bernir mai hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru yw'r arfer gorau, ond efallai y byddai'n well gennych nodi cyflenwyr posibl a allai ddarparu'r cynnig gorau cyffredinol i chi.
Mae'r cyfleuster hwn ar gael i chi yn rhad ac am ddim, ewch i wefan GwerthwchiGymru [www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/](www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/) a chysylltwch â llinell gymorth y wefan ar 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth.

**Ceisio Dyfynbrisiau/Tendrau**

Yn achos gwariant sy'n fwy na £10,000, mae'n hanfodol bod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu ceisio gan gyflenwyr priodol ar gyfer y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau sy'n ofynnol. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg bod dyfynbrisiau/tendrau anaddas wedi'u ceisio, efallai y bydd yn ofynnol hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.

**Diwydrwydd dyladwy**

Fel rhan o'r broses asesu, mae'n ofynnol i chi gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ynghylch y cyflenwr/contractwr yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni'r grant. Pwrpas y gwiriadau hyn yw cadarnhau bod y cwmni yn un dilys. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys - gwirio manylion y cwmni ar Dŷ'r Cwmnïau, gwirio bod y rhif TAW sydd wedi'i gynnwys yn y cais yn gywir ac yn cyd-fynd â manylion y cwmni. Efallai y byddai'n briodol gwirio gwefannau'r cwmni hefyd i weld ei bortffolio a'r math o waith a phrosiectau y mae'r cwmni hwnnw wedi'u gwneud o'r blaen. Mae hyn yn cynnig sicrwydd y byddai'n addas ar gyfer y prosiect arfaethedig.

**Osgoi gwrthdaro buddiannau**

Rydym yn sylweddoli y gallai ymgeiswyr/datblygwyr, neu unigolion sy'n gysylltiedig â nhw (megis perthnasau, partneriaid busnes neu gyfeillion), ddymuno tendro am gontract sy'n cael ei gynnig gan yr ymgeisydd/datblygwr. Mae hynny'n dderbyniol ond bydd angen i'r ymgeisydd sicrhau bod y broses dendro yn cael ei chynnal mewn modd agored, a'i bod yn dryloyw a theg, fel yr amlinellir uchod, heb roi unrhyw fantais i un unigolyn neu gwmni dros un arall. Mae'n rhaid cymryd unrhyw fesurau perthnasol i atal, nodi ac unioni unrhyw wrthdaro buddiannau.
Os oes gan ymgeisydd / datblygwr neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â nhw'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fuddiant ariannol, economaidd, gwleidyddol neu bersonol arall y gellid ystyried ei fod yn peryglu ei ddidueddrwydd a'i annibyniaeth yng nghyswllt y weithdrefn gaffael:

- mae'n rhaid i'r ymgeisydd / datblygwr, neu unrhyw berson neu barti arall sydd â buddiant, ddatgan y cyfrwy fuddiant yn ysgrifenedig wrth y Swyddog Prosiect a fydd yn rhoi cyngor yn unol â hynny.

- mae'n rhaid sicrhau nad yw manylebau a meini prawf gwerthuso yn ffafrio nac wedi'u teilwra ar gyfer un ateb nac unrhyw un parti dros un arall.

- ni ddylai'r unigolyn neu barti sydd â buddiant gymryd unrhyw ran o gwbl yn y gweithdrefnau i werthuso'r tendrau er mwyn sicrhau bod y broses yn deg i bawb. Cydnabyddir y gallai fod yn ofynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin roi'r gymeradwyaeth derfynol.

- mae'n rhaid cofnodi pob cam o'r weithdrefn yn ffurfiol.

Pwrpas y canllawiau hyn yw sicrhau bod yna degwch wrth wario arian cyhoeddus ac nad yw gonestrwydd yr ymgeisydd yn cael ei beryglu.

**<u>Newidiadau i'r fanyleb neu'r contract</u>**
Os oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r fanyleb ar ôl ceisio dyfynbrisiau/tendrau sy'n effeithio ar gwmpas gwreiddiol y gofyniad, bydd angen cynnal ymarfer caffael newydd i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Gall hyn ddigwydd o ganlyniad i ychwanegiadau annisgwyl i'r gofyniad gwreiddiol, lle cyflwynir tendrau sy'n fwy na'r gyllideb sydd ar gael, lle mae lefelau cyllido yn newid ac ati. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd am grant hysbysu'r Swyddog Prosiect a fydd yn cynnig cyngor yn unol â hynny.

- **Gall methiant i gadw at y gweithdrefnau perthnasol a amlinellir uchod gael ei ystyried yn ddiffyg cydymffurfio a gallai hynny arwain at dynnu'n ôl y cynnig o grant a hawlio'r arian yn ôl o bosibl.**

- **Mewn achosion lle na allwch gydymffurfio â gofynion y gweithdrefnau hyn, rhaid ichi roi gwybod i reolwr y prosiect.**

- **Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch sut i weithredu'r gweithdrefnau hyn, cysylltwch â Rheolwr y Prosiect i gael eglurhad a chyfarwyddyd pellach.**

**<u>Cynghorion ynghylch Tendro</u>**

**<u>Cynghorion ynghylch Tendro</u>**

| Pethau i'w gwneud | Pethau i beidio â'u gwneud |
|---|---|
| • **<u>Gofalwch</u>** fod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei ddatgan ar y cyfle cyntaf posibl. | • **<u>Peidiwch</u>** â gogwyddo'r fanyleb er mwyn diystyru neu wahaniaethu yn erbyn cyflenwyr h.y. cyfyngu'r fanyleb i frand penodol. |
| • **<u>Cydymffurfiwch</u>** â'r rheolau priodol. | • **<u>Peidiwch</u>** â newid y fanyleb ar ôl iddi gael ei dosbarthu. |
| • **<u>Gofalwch</u>** fod y fanyleb yn fanwl-gywir a heb fod yn fwy na'r gofynion. | • **<u>Peidiwch</u>** â newid y meini prawf gwerthuso yn ystod y broses. |
| • **<u>Gofalwch</u>** fod y Meini Prawf Gwerthuso yn uniongyrchol berthnasol i bwnc y contract. | • **<u>Peidiwch</u>** â rhoi rhy ychydig o amser i gwmnïau gyflwyno dyfynbris. |

| | |
|---|---|
| • **<u>Gofalwch</u>** lenwi a chadw cofnodion llawn er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol ac at ddibenion archwilio. | • **<u>Peidiwch</u>** â chyfathrebu ar lafar **o gwbl** â chyflenwyr ynghylch cwestiynau penodol. Mae'n rhaid darparu'r un wybodaeth i'r holl gyflenwyr drwy e-bost i sicrhau bod y broses yn un deg a'i bod yn cael ei chofnodi. |
| • **<u>Gofalwch</u>** fod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'. | • **<u>Peidiwch</u>** â datgelu prisiau i gyflenwyr posibl. |
| • **<u>Gofalwch</u>** eich bod yn delio â chyflenwyr mewn modd agored, tryloyw a hynny heb wahaniaethu. | • **<u>Peidiwch</u>** â thorri'r rheolau ynghylch cyfrinachedd. |
| • **<u>Caniatewch</u>** ddigon o amser i gwmnïau gyflwyno eu dyfynbris | • **<u>Peidiwch</u>** ag agor dyfynbrisiau/tendrau cyn y dyddiad cau. |
| • **<u>Gofalwch</u>** fod gwerth y Nwyddau, y Gwaith neu'r Gwasanaeth yn cael ei amcangyfrif yn gywir ar ddechrau'r broses i ddefnyddio'r broses gaffael gywir. | • **<u>Peidiwch</u>** ag ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau. |

**<u>Terminoleg a diffiniadau caffael</u>**

| **Teitl** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| **Contract** | Ystyr Contract at ddibenion y Rheolau hyn fydd unrhyw gytundeb rhwng yr ymgeisydd am grant ac un neu fwy o bartïon eraill ar gyfer: -<br>• gwerthu nwyddau neu ddeunyddiau.<br>• cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau.<br>• cyflawni gwaith<br>• darparu gwasanaethau (gan gynnwys adeiladau a chyfleusterau). |
| **Nwyddau traul** | Nwyddau traul yw nwyddau defnyddwyr a ddefnyddir gan unigolion a busnesau y mae'n rhaid eu newid ar ôl eu defnyddio. Gall nwyddau traul fod yn eitemau bob dydd y mae'n rhaid eu newid yn gyson a'r rhai sy'n treulio dros gyfnodau hirach. Mae llawer o nwyddau traul yn fwy fforddiadwy na mathau eraill o nwyddau oherwydd eu bod wedi'u bwriadu i gael eu newid yn aml. Mae rhai nwyddau traul wedi'u cynllunio ar gyfer un defnydd yn unig ond gellir defnyddio eraill sawl gwaith. |
| **Ffynhonnell Gystadleuol** | Cyflenwr annibynnol yn gwneud cynnig yn erbyn darparwr annibynnol arall. |
| **Nwyddau** | Eitemau materol, h.y. offer, bwyd, cerbydau ac ati. |
| **Gwerthuso** | Dull o bennu pa ddyfynbris neu dendr yw'r gorau o ran darparu gwerth yr |

| | |
|---|---|
| | arian yn unol â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd ymlaen llaw. Mae'r meini prawf hyn yn helpu i sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn deg, yn dryloyw, ac yn unol â'r amcanion. |
| **Meini Prawf Gwerthuso** | Rhestr o ofynion allweddol a ddefnyddir i asesu dyfynbrisiau neu dendrau sy'n dod i law o ffynonellau cystadleuol. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa dendr yw'r un mwyaf manteisiol yn seiliedig ar gyfuniad o feini prawf pris/cost ac ansawdd. |
| **Panel Gwerthuso** | Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i gynnal yr ymarfer gwerthuso. Gallai fod yn briodol cael panel traws-swyddogaethol. Dylai'r panel gytuno ar y fanyleb a'r meini prawf gwerthuso ymlaen llaw. Dylai'r panel weithredu'n gyson ym mhob cam o'r ymarfer caffael. |
| **Deddf Caffael 2023** | Mae Deddf Caffael 2023 yn fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu sut mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y DU yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Ei nod yw sicrhau tegwch, tryloywder, a gwerth am arian wrth gefnogi cystadleuaeth ac arloesedd. |
| **GwerthwchiGymru** | Gwefan lle hysbysebir pob contract sector cyhoeddus. Gall Derbynwyr Grant Trydydd Parti hefyd hysbysebu trwy'r wefan, a hynny yn rhad ac am ddim. Ewch i wefan GwerthwchiGymru www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/ a chysylltwch â llinell gymorth y wefan ar 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth. |
| **Gwasanaethau** | Tasgau a wneir gan bobl h.y. gwasanaethau ymgynghoriaeth, gwasanaethau cyfieithu ac ati. |
| **Manyleb** | Datganiad ysgrifenedig yw hwn sy’n diffinio'r gofynion. Bydd y fanyleb yn amrywio yn ôl y gwaith, y cynnyrch neu’r gwasanaeth dan sylw. Efallai mai disgrifiad byr fydd yn achos cynnyrch syml, ond yn achos gofyniad cymhleth, bydd yn ddogfen gynhwysfawr. Ni ddylai disgrifiad o'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau gyfeirio at wneuthuriad, brand neu ffynhonnell benodol. |
| **Tendr/Dyfynbris** | Y ddogfen y bydd darpar gyflenwr yn ei llunio mewn ymateb i wahoddiad i gyflwyno dyfynbris/tendr. Mae'r ddogfen yn nodi gwybodaeth gyffredinol drwy arddangos gallu a chymhwyster y cyflenwr - gan gynnwys gwybodaeth fanwl am sut y mae'n bwriadu cyflawni manylebau'r gofyniad. |
| **Gwaith** | Mae'n cynnwys gwaith adeiladu, peirianneg sifil ac ati. |

**Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch sut i weithredu’r gweithdrefnau hyn, cysylltwch â Swyddog y Gronfa Datblygu Eiddo i gael eglurhad a chyfarwyddyd pellach.**

## Atodiad 2

### Safonau’r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)

Mae Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg gosod gofyniad statudol ar y Cyngor i sicrhau bod y grantiau a ddyfernir ganddo yn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg;
Er mwyn bodloni'r gofynion yma rhaid i chi wneud pob ymdrech i wneud yr isod:

Mae'r rhain yn enghreifftiau o ymrwymiadau y gall yr ymgeisydd eu gwneud er mwyn darparu yn unol â'r Safonau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ond yn hytrach mae'n cynnig awgrymiadau, a gallai'r ymgeisydd awgrymu ymrwymiadau eraill.

Bydd disgwyl iddynt ystyried perthnasedd yr isod i'r gwaith y maent am ei gyflawni trwy'r grant ac ymrwymo i gymaint â phosibl yn unol â maint trosiant y sefydliad, a maint y cais am gyllid.

Sylwch fodd bynnag y bydd disgwyl i unrhyw sefydliad sy'n cyflogi mwy na 50 aelod wneud ymrwymiad sylweddol i'r Gymraeg, gan gyflawni'r hyn sydd yn y rhestr isod. Fe ystyrir pob sefyllfa yn unigol a bydd cyngor a chymorth ar gael i bob ymgeisydd.

- Gweithredu'n ddwyieithog yn weledol gan roi statws uchel i'r Gymraeg ar bob cyfle (deunyddiau hyrwyddo, postiadau, datganiadau i'r wasg)
- Cyfathrebu'n ddwyieithog gyda'r cyhoedd (ebyst, datganiadau i'r wasg, llythyrau galwadau ffôn)
- Cydweithio gyda phartneriaid sy'n hyrwyddo'r Gymraeg (Mentrau, Urdd, Ffermwyr Ifanc, Meithrin, Cymraeg i Blant, Ysgolion Cymraeg, Cymraeg i oedolion, capeli, corau, papurau bro, fforymau a rhwydweithiau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg)
- Sicrhau bod gweithlu gyda sgiliau Cymraeg, neu drefniadau eraill yn eu lle, fydd yn galluogi gweithredu yn unol â'r Safonau
- Darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb neu ar lein yn Gymraeg
- Dangos ystyriaeth o natur ieithyddol yr ardal ddaearyddol y bwriedir gwasanaethu, ac o sut y mae'r gwaith yn mynd i gael effaith cadarnhaol ar nifer siaradwyr neu ddefnydd y Gymraeg

Mantais busnes i ddefnyddio'r Gymraeg (llyw.cymru)

Bydd disgwyl i ymgeiswyr nodi eu hymrwymiadau i'r Gymraeg wrth iddynt ateb y cwestiynau am y Gymraeg ar y ffurflen gais ac, wedi iddynt gael eu cytuno gyda'r swyddog grant, fe fyddant yn cael eu gosod fel amodau a thelerau i'r ymgeisydd llwyddiannus.

### 1.Y sefydliad

| |
|---|
| Byddwn yn mapio capasiti presennol y sefydliad i ddarparu yn Gymraeg |
| Byddwn yn ymdrechu i gynyddu capasiti'r sefydliad i ddarparu'n Gymraeg naill ai drwy gyflogi staff sydd â sgiliau iaith Cymraeg, drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr sydd â sgiliau Cymraeg neu drwy weithio mewn partneriaeth gyda sefydliad arall sy'n medru darparu'n Gymraeg |
| Byddwn yn sicrhau fod gyda ni drefniadau mewn lle i ddarparu deunyddiau yn Gymraeg |
| Byddwn yn ystyried darpariaeth Gymraeg o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio'r ddarpariaeth |
| Mae gyda ni Bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg sy'n amlinellu ein hymrwymiad ymarferol i'r Gymraeg |
| Rydyn ni'n sefydliad Cymraeg sy'n gweinyddu, gweithredu a darparu drwy gyfrwng y Gymraeg |

### 2.Cyhoeddusrwydd

| |
|---|
| Byddwn yn cyhoeddi holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn Gymraeg , yn electroneg ac ar bapur. Byddwn yn sicrhau bod y deunyddiau hyrwyddo Cymraeg yn mynd allan yr un pryd â'r Saesneg, i'r un safon a bydd y Gymraeg yn cael ei gynnwys yn y man lle bydd yn cael ei ddarllen yn gyntaf |

| |
|---|
| Byddwn yn Marchnata i gynulleidfa Gymraeg ei iaith gan nodi'n glir bod darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog ar gael. |
| Byddwn yn annog siaradwyr Cymraeg i ymwneud gyda fy mhrosiect yn Gymraeg |
| Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg yn fy holl weithgaredd |
| Bydd ein siaradwyr Cymraeg yn gwisgo bathodynnau iaith gwaith ac yn annog pobl i siarad Cymraeg |
| Byddaf yn creu hunaniaeth Gymreig i fy narpariaeth. |

### 3.Ymwneud gyda'r cyhoedd

| |
|---|
| Byddwn yn cyfathrebu gyda'r cyhoedd yn ddwyieithog (torfol?) |
| Byddwn yn cynnig cyfathrebu yn Gymraeg gydag unigolion ac yn cyfathrebu gyda nhw yn yr iaith y maen nhw'n dymuno |
| Byddwn yn darparu ein gweithgaredd yn Gymraeg |
| Byddwn yn darparu ein gweithgaredd yn ddwyieithog gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei drin mor ffafriol â'r Saesneg |
| Os nad oes modd darparu elfen o'r weithgaredd yn Gymraeg o achos diffyg personél, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg, gan ddefnyddio hwyluswyr Cymraeg neu gyfieithu ar y pryd er enghraifft, neu drwy weithio mewn partneriaeth gyda sefydliad arall |
| Byddwn yn hyrwyddo elfennau Cymraeg ein darpariaeth |

### 4 .Sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg

| |
|---|
| Mae gennym ddealltwriaeth o sefyllfa ieithyddol y sir ac rydym yn deall yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg |
| Byddwn yn cynnig darpariaeth Gymraeg yn hytrach nac aros i rhywun ofyn amdano |
| Byddwn yn ymgysylltu gyda chymunedau Cymraeg eu hiaith (daearyddol neu beidio) |
| Byddwn yn sicrhau nad ydy ein darpariaeth yn cael effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg yn gyffredinol yn y sir, gan gynnwys sicrhau nad ydy ein darpariaeth yn annog siaradwyr Cymraeg i ymwneud â'i gilydd yn Saesneg o achos ein darpariaeth |
| Byddwn yn sicrhau defnydd o'r Gymraeg yn ein holl ddarpariaeth gan gynnwys gan rhai sy'n llai rhugl |
| Bydd ein gweithgaredd yn darparu cyfle i bobl defnyddio'u Cymraeg neu ddatblygu eu sgiliau |

| Cymraeg |
| --- |
| Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid sy’n hyrwyddo’r Gymraeg (Mentrau, Urdd, Ffermwyr Ifanc, Meithrin, Cymraeg i Blant, Ysgolion Cymraeg, Cymraeg i oedolion, capeli, corau, papurau bro, fforymau a rhwydweithiau sy’n hyrwyddo’r Gymraeg) |